Health and Care Research Wales Evidence Centre

Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

## Beth yw Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru?

Wedi'i sefydlu ym mis Ebrill 2023, mae'r Ganolfan Dystiolaeth yn cynnal ymchwil gyflym, berthnasol a thrylwyr i lywio'r broses o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn polisi ac ymarfer yng Nghymru, wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. I gael rhagor o wybodaeth am Ganolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ewch i'n gwefan.

## I bwy mae'r canllaw hwn?

Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio i gefnogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau polisi ac ymarfer i gyflwyno cwestiynau ymchwil sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol i'w hystyried i'w cynnwys yn rhaglen waith y Ganolfan Dystiolaeth.

## Pa fath o ymchwil rydym yn ei gynnal?

Rydyn ni'n gweithio gyda grwpiau ymchwil profiadol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, Technoleg Iechyd Cymru, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Abertawe. Rydyn ni'n cynnig:

- **Adolygiadau Tystiolaeth Cyflym** o lenyddiaeth academaidd ryngwladol gyfredol gan ddefnyddio dulliau 'adolygu systematig'; mae'r rhain fel arfer yn cymryd 3-4 mis.
- **Ymchwil Sylfaenol Gyflym** gan gynnwys astudiaethau Cyswllt Gwybodaeth Ddienw Diogel (SAIL) gyda'n tîm Gwyddor Data'r Boblogaeth ym Mhrifysgol Abertawe ac astudiaethau ymchwil llai. (Mae'r rhain yn cymryd mwy o amser nag Adolygiad Tystiolaeth Cyflym).

## Ein Proses Gyflwyno

Mae'r Ganolfan Dystiolaeth yn lansio galwad am gwestiynau bob 6 mis, yn fras. Bydd y 4edd alwad am gwestiynau **ar agor o Ddydd Llun 10 Chwefror tan Ddydd Gwener 28 Mawrth 2025.**

Gweler y ddolen ganlynol i'n ffurflen gyflwyno ar-lein. Mae'r ffurflen yn cynnwys amrywiaeth o awgrymiadau neu gwestiynau i'n helpu i ddeall eich angen am dystiolaeth. **Sylwch, unwaith y byddwch wedi dechrau llenwi'r ffurflen, ni ellir ei chadw (hyd nes y bydd wedi'i chyflwyno).**

Mae copi y gellir ei olygu o'r ffurflen wedi’i atodi i e-bost cyflwyno’r gweithdy i'ch galluogi i ddrafftio eich ymateb.

Gofynnwn i bob cwestiwn gael ei ddatblygu gyda chymaint o feddwl â phosibl. I helpu gyda hyn, rydyn ni’n cefnogi amrywiaeth o weithdai unigol, yn ogystal â sesiynau trafod yn ein Symposiwm wyneb-yn-wyneb Ddydd Mercher 19 Mawrth 2025, ac mae croeso cynnes i chi fynychu.

**Sut mae'r cwestiynau ymchwil yn cael eu dewis ar gyfer y rhaglen waith?**

Mae ein tîm, gan gynnwys aelodau o’r cyhoedd a'n grwpiau ymchwil, yn blaenoriaethu cwestiynau ymchwil a gyflwynir mewn ymgynghoriad â thimau tystiolaeth Llywodraeth Cymru, ein Grŵp Cynghori Strategol arbenigol a'n cyllidwyr, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Rydyn ni’n defnyddio'r meini prawf canlynol:

- A yw'r cwestiwn yn cyd-fynd â **blaenoriaethau Llywodraeth Cymru** ar gyfer **iechyd a/neu ofal cymdeithasol yng Nghymru?**
- A allai’r cwestiwn **gael effaith a chael ei drosi’n bolisi neu ymarfer**
- Sut gallwn ni ateb y cwestiwn hwn **yn ymarferol** (gan ystyried ein harbenigedd/amserlenni)?
- Pa **lenyddiaeth/data** academaidd ac anacademaidd rhyngwladol sydd ar gael ar y pwnc?

**Pam fod angen i ni wybod sut y bydd y dystiolaeth yn cael ei defnyddio?**

Rydyn ni’n cael ein gyrru gan alw, gan gynnal ymchwil a fydd yn cael ei defnyddio yn hytrach na rhywbeth sy’n ‘dda gwybod’. Mae deall sut a phryd y bydd y dystiolaeth yn cael ei defnyddio yn ein helpu i ddarparu cynnyrch sy'n ddefnyddiol at y diben hwnnw.

**Beth yw 'cwestiwn ymchwil da'?**

Cwestiwn **â ffocws** sy’n amlinellu'r **wybodaeth allweddol sydd ei hangen i lywio'r penderfyniad** i alluogi proses chwilio effeithlon ac effeithiol o lenyddiaeth ryngwladol bresennol. Er enghraifft:

- Beth yw'r boblogaeth o ddiddordeb?
- Oes gennych chi ymyriadau penodol mewn golwg?
- Beth yw'r canlyniadau o ddiddordeb?

Mae ffeithlun sy'n nodi ystyriaethau allweddol ar gael yma.

**Sut fydda i'n gwybod a yw fy nghwestiwn ymchwil yn llwyddiannus?**

Bydd y Ganolfan Dystiolaeth yn adolygu eich cyflwyniad ac yn cysylltu â chi drwy'r e-bost rydych chi wedi'i roi ar gyfer derbyn y canlyniad. Os bydd eich cyflwyniad yn llwyddiannus, neu

os oes angen eglurhad pellach, bydd y Ganolfan Dystiolaeth yn trefnu cyfarfod i drafod eich anghenion yn fanylach.

**Os bydd eich cwestiwn yn cael ei ddewis**

Mae angen cyfranogiad gan **randdeiliad ymgysylltiedig a enwir** trwy gydol proses yr adolygiad. Ein rhanddeiliaid yw'r swyddogion penderfyniadau polisi, iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cysylltu â ni gyda chwestiwn ymchwil neu anghenion tystiolaeth. Mae'r rhanddeiliad yn cymryd rhan ym mhob cam o'r broses ymchwil a phenderfynu i sicrhau bod ein hymchwil **yn cael ei chyd-greu ac yn effeithiol**.
Mae ffeithlun sy'n nodi'r ymrwymiad amser disgwyliedig gan randdeiliad astudiaeth ar gael yma.

- Byddwn yn gweithio gyda chi i ddeall manylion eich angen am dystiolaeth, a'ch helpu i ddatblygu cwestiwn ymchwil â ffocws o gwmpas hyn.
- Byddwn yn trafod gyda chi y dulliau mwyaf priodol o fynd i'r afael â'ch cwestiwn ymchwil a naill ai'n dyrannu eich cwestiwn i un o'n 4 tîm ymchwil arbenigol a fydd yn darparu **adroddiad yn crynhoi'r llenyddiaeth academaidd ryngwladol** ar eich pwnc neu i dîm i gynnal ymchwil sylfaenol. Bydd adroddiadau ar gael yn ein llyfrgell adroddiadau ar-lein.
- Byddwn yn eich cefnogi drwy'r broses gyfan i sicrhau bod yr ymchwil yn cyd-fynd â'ch blaenoriaethau a'ch angen am dystiolaeth.
- Mae gennym **arbenigwyr Hwyluso Defnydd Gwybodaeth ac Effaith pwrpasol** a fydd yn gweithio gyda chi i ledaenu a gweithredu canfyddiadau eich adolygiad.

Dilynwch ni ar X @TystiolaethCym @EvidenceWales